CERAMEG BLWYDDYN 7: Rhaglen Ddysgu __ MDPh: Celfyddydau Mynegiannol

Datblygu syniadau drwy ymchwiliadau, gan ddangos dealltwriaeth allweddol o ffynonellau. Dysgu'r dechneg Pot Bys Bawd a'i le mewn celf draddodiadol a modern.

Archwilio BYWYD LLONYDD mewn Celf, drwy waith creadigol eich hunain ac eraill, yn denu dysgwyr â genres, technegau, offer, deunyddiau ac arferion amrywiol ac yn eu galluogi i fod yn fwy chwilfrydig ac yn unigolion creadigol.

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu: **AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol: Bydd y myfyrwyr yn gallu archwilio ffurfiau a disgyblaethau mewn cerameg drwy arbrofi, ymchwil ffurfiol ac ymholi, gall dysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o sut mae celfyddydau mynegiannol yn cyfathrebu trwy ddulliau gweledol. Bydd yr archwiliad hwn yn gwella eu dealltwriaeth o sut mae'r celfyddydau mynegiannol yn siapio syniadau a theimladau. Bydd yn eu hannog i ddatblygu eu dychymyg a llunio ar eu profiadau, eu sgiliau a doniau eu hunain i ddod yn artistiaid creadigol eu hunain.** datblygu eu sgiliau a thechnegau wrth drin clai, yn enwedig y dechneg **POT BYS BAWD (*THUMB POT*). Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu harbrawf a'u hymchwiliad i drin gwaith creadigol gyda phwrpas a bwriad wrth gyfathrebu syniadau. Byddant yn cymhwyso sgiliau technegol arbenigol yn eu gwaith creadigol a defnyddio sgiliau dylunio yn bwrpasol a chymhwyso ystod o atebion i egluro a gwella syniadau creadigol terfynol. (PS4)** **AO1 Dealltwriaeth Feirniadol: Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddadansoddi ac ymateb i waith artist; pennau anifeiliaid Catrin Howell- bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i ymateb i wybodaeth gweledol ac ysgrifenedig er mwyn disgrifio a gwerthuso gwaith celf. **Drwy astudio Buddug Humphreys a Catrin Howell bydd dysgwyr yn archwilio Cymru a'i thraddodiadau, hanes a'i diwylliant unigryw ac amrywiol. Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio ac yn deall sut mae ystyr yn cael ei gyfathrebu drwy syniadau artistiaid eraill (PS4)** **AA3 Cofnodi Myfyriol: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth** o'u sgiliau gweledol a sgiliau ymchwil ysgrifenedig i greu pot bys bawd a phen anifail wedi'i hysbrydoli gan Catrin Howell. **Bydd y myfyrwyr yn archwilio gwaith creadigol, gan ddeall y cyd-destun personol, cymdeithasol, diwylliannol, a hanesyddol, gan gynnwys confensiynau'r cyfnod y cafodd ei greu ynddo. (PS4)** **Pedwar Pwrpas: Dod yn uchelgeisiol, dysgwyr galluog, yn barod i ddysgu drwy eu bywydau.**			**Termau Allweddol:** Cerameg, clai, odyn, tanio, slip, gwydredd, cerfwedd uchel, cerfwedd isel, cerflun, gwead, patrwm, Slab, Pot bys bawd, Catrin Howell, creaduriaid mytholegol, llwy garu, canlyniadau 3D o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu, symbolaidd.
RhDd1 – Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu dealltwriaeth feirniadol trwy ymchwilio i ffeithiau allweddol am y broses o greu gwaith cerameg a lle y gellir dod o hyd i glai.** 1. Bydd y myfyrwyr yn trafod gwybodaeth ragarweiniol am gerameg ac yn gallu adrodd ffeithiau allweddol am gerameg. (Ffocws llythrennedd: 7.LLG1, 7.LLS2 – Sgiliau siarad a gwrando). 2. Bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gwblhau tasgau lluniadu arsylwadol wedi'u hamseru a defnyddio'r rhain i baratoi dyluniad terfynol.		**Meini prawf llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn gallu cwblhau tasg lluniadu arsylwadol, gan edrych ar wahanol wrthrychau 'bywyd llonydd' i ysbrydoli eu pot bys bawd eu hunain. Bydd y myfyrwyr yn dangos hyder wrth siarad a mynegi eu barn, gan egluro eu rhesymeg.	**Gwaith Cartref** Gwneud Creadigol/Dealltwriaeth Feirniadol a Chofnodi Myfyriol; Creu taflen wybodaeth am glai a photiau bys bawd (crochenwaith pinsiad) a gwahanol batrymau o wahanol ddiwylliannau e.e. Affricanaidd, Astecaidd, Islamaidd ac ati.
RhDd1 – Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau gwneud creadigol a chyflwyno personol: gwneud pot bys bawd ceramig** 1. Bydd y myfyrwyr yn dysgu'r dechneg pot bys bawd, gan gynnwys creu patrymau cerfwedd *(relief)* (neu effaith gerfwaith) ar y potyn.		**Meini prawf llwyddiant** Myfyrwyr i arbrofi gyda'r broses pot bys bawd, gan ddilyn eu dyluniad i greu pot bys bawd gydag ochrau i gyd yr un maint, a defnyddio amrywiaeth o offer clai i ychwanegu patrwm a gwead.	Gradd
RhDd1 – Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu dealltwriaeth feirniadol a sgiliau cofnodi myfyriol trwy ddefnyddio'r dechneg pot bys bawd a sgiliau newydd a ddatblygwyd i anodi taflen ymchwil.** 1. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd mewn asesiad - paratoi canllaw cam wrth gam a thudalen ymchwil. 2.Bydd y myfyrwyr yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn cymharu eu gwaith gyda gwaith artistiaid eraill y maent wedi ymchwilio iddynt ar-lein.		**Meini prawf llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn cwblhau gwaith ymchwil digidol a thudalen cam wrth gam, gan adalw geiriau allweddol a'r camau cywir. Bydd y myfyrwyr yn gosod targedau personol ar gyfer y gwaith cerameg nesaf.	

RhDd1 – Wythnos 4 a 5- Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau cyflwyno personol: cwblhau eu canlyniad ceramig gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau paentio i addurno eu cerflun.** 1. Bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gymysgu lliwiau eilaidd a defnyddio tôn wrth baentio gwaith cerameg. 2. Bydd y myfyrwyr yn myfyrio ar eu cynnydd ac yn gosod targedau er mwyn gwella eu gwaith. Bydd y myfyrwyr yn gwybod pa sgiliau y bydd angen iddynt eu gwella wrth baentio eu gwaith cerameg nesaf. **Week 6: EXTENTION TASK: Students will develop their creative making & personal presentation: complete a ceramic thumb pot animal head.** 1. Students will apply and demonstrate their confident knowledge and skills in preparation for their SA assessment outcome. Making their ceramic Thumb pot animal head. 2. Students will reflect on their progress and set targets for improvement. Students will know which skills they will need to improve upon when they next work with clay. **Week 7: EXTENTION TASK: Students will develop personal presentation: complete their ceramic outcome using various paint techniques to decorate their ceramic animal head.**	Asesiad Gradd **AC** **/100**	**Meini prawf llwyddiant:** Bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwyso'r 3 maen prawf llwyddiant sydd eu hangen wrth baentio pot bys bawd: Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio lliwiau cynradd i gymysgu lliwiau eilaidd a dangos eu gallu i baentio gan ddefnyddio'r ystod donyddol rhwng y lliwiau hyn. Bydd y myfyrwyr yn gofalu eu bod yn adolygu eu gwaith ac yn gosod targedau ar gyfer canlyniadau ceramig yn y dyfodol. Students to experiment with the thumb pot process to make a ceramic animal head with even sides, elongated features and hollow eyes.	
RhDd1 – Wythnos 6/8 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth feirniadol a sgiliau cofnodi myfyriol trwy eu sgiliau llythrennedd a'u dealltwriaeth o sut i ymateb i waith artist** 1. Bydd y myfyrwyr yn gallu gwerthuso a chymharu canlyniadau pot bys bawd cerameg gyda'r dyluniadau a chanlyniadau'r dudalen ymchwil i waith artist ac ymateb i'r targedau a osodwyd gan yr Athro/Athrawes. 2. Trwy gwblhau'r dasg ysgrifenedig, bydd y myfyrwyr yn dysgu termau allweddol a strwythurau brawddeg cywir. Trwy wella eu sgiliau cofnodi myfyriol, byddant yn defnyddio iaith berthnasol i werthuso ac ymateb i waith a gwblhawyd. (Ffocws llythrennedd: 7.YY1, 7.YS4, 7.YS1, 7.YI2, 7.YG4)		**Meini prawf llwyddiant:** Bydd y myfyrwyr yn gallu gosod targedau personol mewn ymateb i argymhellion yr athro a chwblhau gwerthusiad o'r gwaith ymarferol. Myfyrwyr i gwblhau ymateb gwerthusol i gyfleu syniadau a ddatblygwyd ganddynt o'u gwaith ymchwil a myfyrio ar waith wrth iddo fynd rhagddo.	

BLWYDDYN 7 PEINTIO & LLUNIADU: Rhaglen Ddysgu __ MDPh: Celfyddydau Mynegiannol

Gwella gwaith drwy archwilio syniadau, dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol: Ffurf dysgu, cywirdeb, cyfrannedd, tôn a graddliwio

Mae creu gweithiau celf BYWYD LLONYDD yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth dros ystod o sgiliau a chymhwyso gwybodaeth ac arferion a'u galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:
AA2 Gwneud Creadigol Sgiliau: Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau i greu llinell, tôn, gwead a lliw. **Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, yn tynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg. Drwy ymgysylltu â Bywyd Llonydd wrth Beintio a Lluniadu, bydd dysgwyr yn cael y cyfleoedd i fod yn arloesol ac i sefyll allan, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu hunaniaeth eu hunain fel artistiaid yng Nghymru. Gall y dysgu a'r profiad hwn feithrin gwydnwch a hyblygrwydd i oresgyn heriau. Bydd y dysgwyr yn defnyddio arbrofi ac ymchwilio i drin gwaith creadigol â phwrpas a bwriad wrth gyfathrebu syniadau. (PS4)**
AA1 Dealltwriaeth Feirniadol: Bydd y myfyrwyr yn **ymateb** i waith artistiaid yn ysgrifenedig ac ar ffurf weledol, gan adeiladu ar brofiad a gafwyd yn flaenorol. **Gwybodaeth: Bydd y myfyrwyr** yn gwybod sut i arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau i ddangos gwead, tôn a lliw yn eu gwaith celf eu hunain gan dynnu ysbrydoliaeth gan yr artistiaid a astudiwyd. **Bydd dysgwyr yn gwerthuso gwaith creadigol eu hunain ac eraill yn effeithiol gan ddangos hyder cynyddol i adnabod a mynegi cryfderau, ac i ddangos gwydnwch a phenderfyniad i wella.**
(PS4 R&R)
AA4 Cyflwyniad Personol: Dealltwriaeth: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o dechnegau argraffu amrywiol a dangos sut y defnyddir llinell, tôn, gwead a lliw i greu darn o waith celf effeithiol. **Bydd y dysgwyr yn cymhwyso sgiliau technegol arbenigol yn eu gwaith creadigol. Byddant yn defnyddio sgiliau dylunio yn bwrpasol ac yn cymhwyso ystod o atebion i egluro a gwella syniadau creadigol terfynol. (PS4)**

Pedwar Diben: Dod yn uchelgeisiol, dysgwyr galluog, yn barod i ddysgu drwy eu bywydau.

Termau Allweddol:
Tôn / ystod donyddol
Gwead
Gwneud marciau
Cymysgu lliwiau
Collage
Lluniadu arsylwadol

Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol: Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio marciau i ddisgrifio llinellau a chysgodi amrywiaeth o donau mewn pensil: Darluniau, graddfa donyddol/sffêr, astudiaeth o waith artist.



Meini Prawf Llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn **arbrofi gydag amrywiaeth o** farciau i ddisgrifio gwead. Bydd y myfyrwyr yn ymarfer defnyddio llinellau, y dechneg gwneud marciau a thôn gan ddefnyddio pensiliau HB, 2B a 4B. Sffêr wedi'i gysgodi.

Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i ddefnyddio tôn a chyfrannedd *(proportion)* wrth luniadu'n arsylwadol.
Bydd y myfyrwyr yn cwblhau lluniad tonyddol o wahanol offer, gan edrych yn ofalus ar wead a manylion ar yr arwyneb.

Meini Prawf Llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn **cofnodi arsylwadau'**n uniongyrchol.
Bydd y myfyrwyr yn gallu creu darlun arsylwadol i ddangos tôn/cyfrannedd.

Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn eu Dealltwriaeth Feirniadol trwy ymateb i waith artist.
Bydd y myfyrwyr yn astudio gwaith Jim Dine ac yn cwblhau cynllun ymateb i artist.
Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu darlun o'r wers ddiwethaf ac yn ymateb i waith yr artist gan ddefnyddio siarcol a phensil.
Yn ystod trafodaethau, bydd y myfyrwyr yn mynegi barn/safbwyntiau, adrodd a deall gwybodaeth newydd am y dechneg gwneud marciau. Byddant hefyd yn gallu esbonio manylion perthnasol mewn testunau darllen. (Ffocws Llythrennedd: 2.LLS1, 8.DD6, 2.DD2, 2.DD2b)

Meini Prawf Llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i waith **Jim Dine**.
Bydd y myfyrwyr yn cwblhau darlun gan ddefnyddio'r ystod donyddol lawn.
Bydd y myfyrwyr yn cofnodi eu **safbwyntiau** a'u **barn** eu hunain am y gwaith.
Bydd y myfyrwyr yn gallu ymateb i waith artist gan ddefnyddio geiriau allweddol.

Gwaith Cartref
Gwneud Creadigol:
Creu lluniad llinell o gasgliad o wrthrychau gwneud (manmade) o'ch dewis chi.
Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnwys yn eich darn terfynol ar gyfer y prosiect hwn.
Pwyslais ar gywirdeb.
Gradd

Wythnos 4 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio technegau gwneud marciau i greu tôn a manylion mewn gwaith lluniadu.
Bydd y myfyrwyr yn cymharu enghreifftiau er mwyn deall y meini prawf llwyddiant. (Ffocws Llythrennedd DYD6)
Ymarfer gwneud marciau – bydd y myfyrwyr yn cwblhau lluniad arsylwadol o wrthrychau gan ddefnyddio beiro/pinnau ffelt 'fine line'.
Bydd y myfyrwyr yn arbrofi gyda graddfa.

AC
/100
Gradd

Meini Prawf Llwyddiant
AC
Bydd y myfyrwyr yn **cofnodi arsylwadau'n** uniongyrchol.
Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o dôn/cysgodi yn eu gwaith lluniadu arsylwadol

Wythnosau 5 a 6 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cyflwyno Personol: Bydd y myfyrwyr yn gallu cwblhau cyfansoddiad terfynol a fydd yn cael ei baentio.
Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i baratoi eu cyfansoddiad terfynol. Defnyddio'r holl waith a gynhyrchwyd hyd yma, delweddau o adref a delweddau a ddarparwyd ar eu

Meini Prawf Llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu canlyniad **dychmygus** eu hunain.
Bydd y myfyrwyr yn gallu

cyfer.		creu darlun cyfansoddiadol personol a dychmygus.	
Wythnos 7 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol: Bydd y myfyrwyr yn gallu cymysgu ystod o liwiau eilaidd mewn amrywiaeth o arlliwiau gan ddefnyddio'r lliwiau cynradd:** Bydd y myfyrwyr yn arbrofi gyda lliw, gan gymysgu'r lliwiau cynradd i greu ystod o liwiau eilaidd mewn gwahanol arlliwiau *(hues)*. Bydd y myfyrwyr yn arbrofi gyda lliw – cynradd, eilaidd, trydyddol cyflenwol/cyferbyniol, poeth ac oer.		**Meini Prawf Llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn **arbrofi** gyda phaent er mwyn darganfod yr ystod o arlliwiau *(hues)* y gallant eu cymysgu ar gyfer pob lliw eilaidd gan ddefnyddio'r tri lliw cynradd. Bydd y myfyrwyr yn gallu paentio graddfeydd lliw.	

BLWYDDYN 7 PEINTIO & LLUNIADU: Rhaglen Ddysgu __ MDPh: Celfyddydau Mynegiannol

Gwella gwaith drwy archwilio syniadau, dewis ac arbrofi gyda chyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol: Ffurf dysgu, cywirdeb, cyfrannedd, tôn a graddliwio

Mae creu gweithiau celf BYWYD LLONYDD yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth dros ystod o sgiliau a chymhwyso gwybodaeth ac arferion a'u galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu: **AA2 Gwneud Creadigol: Bydd y myfyrwyr yn gallu** defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau i greu llinell, tôn, gwead a lliw. Bydd y myfyrwyr yn ymateb i waith artistiaid yn ysgrifenedig ac yn weledol, gan adeiladu ar eu profiadau blaenorol. **AA1 Dealltwriaeth Feirniadol: Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau i ddangos gwead, tôn a lliw yn eu gwaith celf eu hunain, gan gymryd ysbrydoliaeth gan yr artistiaid a astudir yn ystod yr uned. **AA4 Cyflwyno Personol: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth** o wahanol dechnegau paentio, lluniadu a phrintio ac yn dangos sut mae llinell, tôn, gwead a lliw yn cael eu defnyddio i greu darn o waith celf effeithiol.			**Termau Allweddol:** Tôn Gwead Gwneud marciau Gwneud printiau Print carbon Collage Arlunio arsylwadol
Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn eu Dealltwriaeth Feirniadol trwy ymateb i waith artist.** Trafod gwaith Al Razza yn fyr, gan edrych ar y defnydd o liw a gwead. (Ffocws llythrennedd: 2.LLS1, 7DD3) Myfyrwyr i astudio gwaith Al Razza a chwblhau taflen ymateb i waith artist, gan ganolbwyntio ar adrannau penodol o'i waith. Byddant yn defnyddio technegau gwead paent, stensiliau, papur wedi'i rwygo ac ati. Bydd myfyrwyr yn anodi eu tudalen archwilio.		**Meini Prawf Llwyddiant:** Bydd y myfyrwyr yn cynhyrchu tudalen o arbrofi gyda thechnegau. Bydd y myfyrwyr yn anodi eu gwaith i ddangos dealltwriaeth o'r technegau.	
Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol: gallu cynhyrchu 2 gefndir gan ddefnyddio cyfryngau cymysg, gan ddefnyddio gwaith Al Razza fel ysbrydoliaeth.** Myfyrwyr i gynhyrchu 2 x cefndir A4, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r gwersi blaenorol. Myfyrwyr i ymgorffori eu gwybodaeth o weadau a lliwiau i gynhyrchu canlyniadau yn arddull gwaith Al Razza.		**Meini Prawf Llwyddiant:** Myfyrwyr i gynhyrchu 2 x cefndir A4 gyda gweadau cymysg mewn ymateb i waith Al Razza.	
Wythnos 3 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: datblygu dealltwriaeth o linell, tôn, cyfrannedd a gwead.** Creu darlun o gocos (cogs); gallai fod yn gadwyn beic, mecanweithiau mewn oriawr, rhannau o beiriannau ac ati. Defnyddio pensil/beiro a'r dechneg gwneud marciau i greu tôn. Bydd hwn yn ffurfio eich cyfansoddiad print nesaf ar gyfer cefndiroedd Al Razza.		**Meini Prawf Llwyddiant** Myfyrwyr i gwblhau lluniad arsylwi gan ddefnyddio gwahanol farciau i gyfleu tôn.	**Gwaith Cartref** Gwneud Creadigol: Creu darlun llinell o gasgliad o wrthrychau a wnaed gan ddyn (man made) o'ch dewis chi. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnwys yn eich darn terfynol ar gyfer y prosiect hw[illegible]r gywirdeb. Gradd
Wythnosau 4 a 5 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: gallu cwblhau 2il ganlyniad gan ddefnyddio cyfuniad o'r technegau lluniadu a phrintio carbon.** Bydd y myfyrwyr yn cwblhau ail ganlyniad terfynol. Rhaid iddynt ddangos cywirdeb, manylion a defnyddio'r dechneg gwneud marciau er mwyn creu tôn. Bydd y myfyrwyr yn printio dros eu cefnir wedi'i ysbrydoli gan waith Al Razza, gan ddefnyddio eu gwaith lluniadu arsylwadol a'u gwaith cartref.	AC Gradd	**Meini Prawf Llwyddiant:** AC Bydd y myfyrwyr yn cwblhau canlyniad manwl, gan gyfuno'r holl dechnegau a ddysgwyd yn ystod y modiwl.	
Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn eu Dealltwriaeth Feirniadol: deall sut i gymharu eu gwaith â gwaith artist a'i werthuso'n feirniadol.** Myfyrwyr i gwblhau ymateb ysgrifenedig i waith artist. Bydd hyn yn galluogi'r myfyrwyr i fyfyrio ar waith y ddau artist a astudiwyd yn ystod y modiwl hwn a thrafod y pethau sy'n debyg/gwahanol ac egluro sut mae eu canlyniadau nhw yn ymateb i'r rhain. (Ffocws Llythrennedd: 7.YI2, 7.YG4) Bydd y myfyrwyr yn gosod targedau unigol ac yn asesu gwaith eu cyfoedion, gan ddangos dealltwriaeth o sut y gellir datblygu'r gwaith ymhellach.		**Meini Prawf Llwyddiant:** Bydd y myfyrwyr yn cwblhau ymateb i waith artist gan ddefnyddio geiriau allweddol, gan sicrhau eu bod yn cynnwys cymariaethau rhwng yr artistiaid.	

BLWYDDYN 7 ARGRAFFWAITH A GWAITH AMLGYFRWNG: Rhaglen Ddysgu __ MDPh: Celfyddydau Mynegiannol

Datblygu syniadau drwy ymchwiliadau, dangos dealltwriaeth feirniadol o ffynonellau. Dysgu technegau argraffu carbon a pholystyren a'i le mewn celf draddodiadol a chyfoes.

Gall mabwysiadu'r sgiliau a'r eirfa feirniadol a geir mewn ARGRAFFWAITH A GWAITH AMLGYFRWNG arfogi dysgwyr i ystyried gwaith creadigol mewn amrywiaeth o gyfryngau, ffurfiau, genres ac arddulliau a'u galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:

AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol: **Bydd y myfyrwyr yn gallu** defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnegau i greu llinellau, tôn, gwead a lliw. Bydd y myfyrwyr yn ymateb i waith artistiaid yn ysgrifenedig ac yn weledol. **Bydd y myfyrwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd ystod eang o *dechnegau* artistig wrth gynhyrchu ystyr. (PS4)**

AA1 Dealltwriaeth Feirniadol: : **Bydd y myfyrwyr yn gwybod** sut i arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau i ddangos gwead, tôn a lliw yn eu gwaith celf eu hunain, gan gymryd ysbrydoliaeth o waith yr artistiaid a astudiwyd. **Bydd y myfyrwyr yn gwerthuso gwaith creadigol eu hunain ac eraill yn effeithiol gan ddangos hyder cynyddol i adnabod a mynegi cryfderau, ac i ddangos gwydnwch a phenderfyniad i wella. (PS4)**

AA3 Cofnodi Myfyriol: **Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o dechnegau argraffu ac yn dangos sut y defnyddir llinellau, tôn, gwead a lliw i greu darn o waith celf effeithiol.** Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol. **Mae ymateb o fewn y celfyddydau mynegiannol yn ymgysylltu â'r emosiynau a'r deallusrwydd. Gall ymateb fod yn ymateb synhwyrol syml i ysgogiad artistig neu ddadansoddiad beirniadol o waith creadigol. Caiff y gallu i fyfyrio ei ddyfnhau wrth i ddysgwyr gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut a pham y caiff gwaith creadigol ei ddatblygu a'i gynhyrchu.**

Bydd y myfyrwyr yn cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun wrth werthuso eu gwaith creadigol eu hunain ac eraill ac o lefydd ac amseroedd eraill. (PS4)

Pedwar Diben: **Dod yn uchelgeisiol, dysgwyr galluog, yn barod i ddysgu drwy eu bywydau.**

Termau Allweddol:
Tôn
Gwead
Gwneud marciau
Argraffwaith
Printio bloc
Brusho
Ffurfiau naturiol
Lluniadu Arsylwadol

Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: dangos dealltwriaeth o'r dechneg gwneud marciau a thôn.** Bydd y myfyrwyr yn cwblhau gwaith lluniadu arsylwadol: Ffurfiau naturiol – ffrwythau wedi'u torri. Bydd y myfyrwyr yn dysgu am gyfrannedd a phatrwm/gwead.		**Meini Prawf Llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio amrywiaeth o dechnegau gwneud marciau yn eu gwaith lluniadu arsylwadol.	**Gwaith Cartref** Cwblhau llun arsylwadol agos o fwyd, fel darn o ffrwyth. Ychwanegu tôn a/neu liw a Gradd gwead
Wythnos 2&3 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol:** **Cwblhau patrymau ailadrodd gan ddefnyddio lluniadau o'r wers ddiwethaf**. Ymarfer lluniadu: Bydd myfyrwyr yn dangos dealltwriaeth o farcio a graddfa. Gan ddefnyddio lluniadau arsylwadol o'r wers ddiwethaf, bydd myfyrwyr yn cynhyrchu ail-brint Poly gan ddangos dealltwriaeth o'r dechneg a'r patrwm argraffu hwn.		**Meini Prawf Llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn gallu ychwanegu tôn/cysgod yn eu gwaith lluniadu arsylwadol. Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i gwblhau lluniadau llinell cywir, gyda thôn.	
Wythnos 4 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn eu Dealltwriaeth Feirniadol: gallu ymateb yn weledol i waith artistiaid a defnyddio technegau tebyg yn eu gwaith eu hunain.** Bydd y myfyrwyr yn trafod gwaith Emma Dibben/Angie Lewin, gan ganolbwyntio ar wead a defnydd o liw. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio darluniau a ffotograffau i wella eu dealltwriaeth ac yn defnyddio gwahanol strategaethau wrth ddarllen – sgimio, anodi, themâu allweddol. (Ffocws Llythrennedd: 3.DS7, 7.DS5) Bydd y myfyrwyr yn gweithio ar gopi o'r lluniau o ffrwythau a gwblhawyd yr wythnos ddiwethaf ac yn defnyddio technegau wedi'u hysbrydoli gan Emma Dibben/Angie Lewin Gwahaniaethu - gall rhai weithio dros lungopi. Anodi'r gwaith celf gan ddefnyddio pwyntiau o'r drafodaeth.		**Meini Prawf Llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn gallu lluniadu gan ddefnyddio 'brusho', 'fine line' a dyfrlliwiau. Bydd y myfyrwyr yn gallu anodi eu gwaith a'i gymharu er mwyn dangos dealltwriaeth.	
Wythnos 5&6 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol: gwybod sut i gwblhau'r holl gamau yn y broses o gynhyrchu printiau poly.** Gweithgaredd ymarferol – printio: Bydd y myfyrwyr yn deall y dechneg printio ewyn ac yn paratoi 4 print i'w defnyddio yn y wers nesaf. Gall y myfyrwyr arbrofi gyda lliwiau. Ychwanegu'r dechneg 'brusho' at un cefndir/un ar gefndir collage.	ACD /100 Gradd	**Meini Prawf Llwyddiant:** Bydd y myfyrwyr yn gallu cwblhau 4 canlyniad wedi'u printio.	

Wythnos 7&8 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: gwybod sut i ddefnyddio cyfryngau i ychwanegu manylion a thôn at eu gwaith print.** Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu gwaith print o'r wers ddiwethaf ac yn gweithio arnynt gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau – ymateb y greadigol i waith artist.		**Meini Prawf Llwyddiant:** Gan ddefnyddio technegau Brusho, pasteli olew, dyfrlliw, 'fine line' ac ati, bydd y myfyrwyr yn gallu creu print cyfrwng cymysg.	
LP1 – Wythnos 9&10 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn eu Dealltwriaeth Feirniadol: gwybod sut i gymharu eu gwaith gyda gwaith yr artist a'i werthuso'n feirniadol.** Trwy drafod ac ysgrifennu am waith Emma Dibben, bydd y myfyrwyr yn gwrando ar ddilyniannau neu safbwyntiau. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon i gymharu safbwyntiau a llunio barn ac yna golygu ac ailddrafftio PPP. Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio geirfa amrywiol a chymharu enghreifftiau er mwyn deall y meini prawf llwyddiant. (Ffocws Llythrennedd: 7.LLG3, 7.DYD5, 7.YY1, 7.YY5, 7.YI2, DYD6) Bydd y myfyrwyr yn cymharu eu gwaith terfynol eu hunain ac yn egluro unrhyw gysylltiadau/ysbrydoliaeth. Bydd y myfyrwyr yn gallu egluro'n glir pa brosesau a thechnegau y maent wedi eu defnyddio i greu eu gwaith a gosod targedau er mwyn datblygu.		**Meini Prawf Llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio geirfa a strwythurau brawddeg cywir i gwblhau darn o waith ysgrifennu estynedig i ymateb i waith artist. Bydd y myfyrwyr yn gallu gosod targedau personol ac ymateb iddynt.	

BLWYDDYN 7 PHOTOSHOP: Rhaglen Ddysgu __ MDPh: Celfyddydau Mynegiannol

Gwella gwaith drwy archwilio syniadau, dewis ac arbrofi gyda chyfryngau digidol, technegau a phrosesau priodol: Dysgu technegau dylunio hanfodol mewn Photoshop

Creu gweithiau celf Digidol BYWYD LLONYDD yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth ar ystod o sgiliau Photoshop a chymhwyso gwybodaeth ac arferion a'u galluogi i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:

AA2/4 Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol: Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio'r rhaglen Microsoft Office gywir i gofnodi datblygiad a chynnydd yn Photoshop a deall sut i newid maint, golygu a thrin delwedd ddigidol yn Photoshop. Creu cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. Drwy ymgysylltu â Bywyd Llonydd o fewn celf ddigidol, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i fod yn arloesol ac i sefyll allan, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu hunaniaeth eu hunain fel artistiaid yng Nghymru. Mae'r dysgu a'r profiad hyn yn gallu meithrin gwydnwch a hyblygrwydd i oresgyn heriau. Bydd dysgwyr yn ystyried eu hunain, eraill, cynulleidfa, cyfranogwyr a materion o eiddo deallusol yn hyderus wrth greu gwaith. (PS4)

AA1 Dealltwriaeth Feirniadol: Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i arbrofi gydag offer golygu amrywiol mewn Adobe Photoshoot i greu delwedd bywyd llonydd haniaethol. **Bydd y myfyrwyr yn defnyddio eu sgiliau dylunio yn bwrpasol ac yn cymhwyso ystod o atebion i egluro a gwella syniadau creadigol terfynol. Bydd y myfyrwyr yn creu, dylunio ac yn rhannu eu gwaith creadigol gan ddangos ymwybyddiaeth o fwriad artistig ac o'r gynulleidfa. (PS4)**

AA3 Cofnodi Myfyriol: Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o brosesau trin digidol amrywiol ac yn cwblhau dogfen Publisher anodedig i gefnogi eu deilliannau. Bydd y dysgwyr yn tynnu ar eu profiadau a'u gwybodaeth i roi gwybod a datblygu strategaethau i oresgyn heriau creadigol gyda dychymyg a gwydnwch. (PS4)

Pedwar Diben: Dod yn uchelgeisiol, dysgwyr galluog, yn barod i ddysgu drwy eu bywydau.

Termau Allweddol:
Adobe Photoshop
Microsoft Publisher
Delwedd Ddigidol
Golygu a thrin
Haniaethol
Bywyd Llonydd
Troshaenu

Wythnos 1 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn datblygu sgiliau Cofnodi Myfyriol: deall fformatau digidol a'r defnydd cywir o raglenni Microsoft Office.
Ffocws Digidol: 3.2 Cynhyrchu: Creu
Deall pa raglenni Microsoft Office sy'n addas ar gyfer gwahanol ganlyniadau.
Trafod Publisher a sut i olygu delweddau a thestun ar y ddogfen.
Trafod â'r myfyrwyr sut i ddefnyddio rhwydwaith yr ysgol, lle i arbed gwaith ac ym mha fformat ac ati.

Meini prawf llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn cwblhau bwrdd naws/map meddwl yn Publisher, gan gynnwys delweddau a thestun, i ymchwilio i waith bywyd llonydd haniaethol.

Gwaith Cartref
Cofnodi Myfyriol: Llun arsylwadol gyda beiro/pensil o ddarn o ffrwyth. Rhaid i'r myfyrwyr ddefnyddio'r ystod donyddol lawn a gallent gynnwys y dechneg gwneud marciau.

Gradd

Wythnos 2 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol:
Bydd y myfyrwyr yn chwilio am 10 delwedd sy'n cynnwys patrymau ar-lein ac yn eu harbed fel dogfennau JPEG yn eu ffolder LLUNIAU
Ffocws Digidol: 3.1 Chwilio ar y Rhyngrwyd: Dinasyddiaeth a chynhyrchu. Trafod dibynadwyedd, parchu gwaith eraill, chwiliadau uwch a thechnegau cynllunio.

Meini prawf llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn casglu 10 delwedd o batrymau ac yn eu rhoi mewn dogfen Publisher ac yn anodi pob delwedd gyda geirfa ddisgrifiadol.

Wythnos 3 a 4 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn datblygu Dealltwriaeth Feirniadol, sgiliau Gwneud Creadigol a Chofnodi Myfyriol:
Ffocws Digidol: 3.2 Cynhyrchu: Creu
1. Bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i agor dogfen newydd i'w golygu yn Photoshop; byddant yn gwybod lle i ddod o hyd i'r bar offer a sut i ARBED y gwaith yn gywir ac ym mha fformat.
2. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio Publisher i gopïo cipluniau o'u gwaith trin digidol yn Photoshop ac yn gallu defnyddio'r derminoleg a'r eirfa gywir wrth anodi eu proses systematig.

Meini prawf llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn cynhyrchu cyfres o ganlyniadau bywyd llonydd haniaethol digidol. Gan ddefnyddio delweddau JPEG o'r wers ddiwethaf, byddant yn eu harbed fel **patrymau** yn Photoshop ac yna'n **troshaenu'r** delweddau ar wrthrych 3D.

Wythnos 5 - Deilliannau Dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol:
Ffocws Digidol: 3.2, 3.3 Cynhyrchu: Creu a gwerthuso
1. Bydd y myfyrwyr yn cwblhau canlyniad digidol terfynol trwy gyfuno'r sgiliau trin digidol a ddysgwyd wrth ddefnyddio Photoshop.
2. Bydd y myfyrwyr yn defnyddio Publisher i gopïo cipluniau o'u gwaith trin digidol yn Photoshop ac yn gallu defnyddio'r derminoleg a'r eirfa gywir wrth anodi eu proses systematig ac i werthuso eu canlyniad.

Gradd

AC /100

Meini prawf llwyddiant
Bydd y myfyrwyr yn gallu cwblhau delwedd ddigidol derfynol a fydd yn cynnwys; troshaenu **patrwm** ar wrthrych 3D, defnyddio'r **offeryn 'Marquee'** i symud/gogwyddo *(tilt)*/newid maint a haenu adrannau a chynnwys 2 effaith **hidlo** ar y ddelwedd

Wythnos 6 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn deall sut i ddefnyddio Dealltwriaeth Feirniadol: cymharu eu gwaith â gwaith artist a gwerthuso.** Myfyrwyr i gwblhau ymateb ysgrifenedig i waith artist. Bydd hyn yn caniatáu i'r myfyrwyr fyfyrio ar sut mae eu gwaith digidol yn cymharu â gwaith yr artist Mindy Newman, trafod pethau sydd yn debyg/gwahanol. (Ffocws llythrennedd: 7.YI2, 7.YG4) Bydd y myfyrwyr yn gosod targedau unigol ac yn asesu gwaith cymheiriaid, gan ddangos dealltwriaeth o sut y gellid ei ddatblygu ymhellach.		**Meini prawf llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn cwblhau ymateb i waith artist gan ddefnyddio geiriau allweddol ac yn sicrhau eu bod cymharu gwaith artistiaid.	
Wythnos 7 - Deilliannau Dysgu: **Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu eu sgiliau Gwneud Creadigol a Chyflwyniad Personol:** Lluniad arsylwadol – bywyd llonydd yn seiliedig ar ffurfiau naturiol. Bydd y myfyrwyr yn gallu dangos dealltwriaeth o dôn a defnyddio'r ystod donyddol lawn yn eu gwaith.		**Meini prawf llwyddiant** Bydd y myfyrwyr yn dangos dealltwriaeth o dôn a chyfrannedd yn yr asesiad lluniadu.	